# RHYBUDD ETHOLIAD

**Dydd Iau 1 Awst 2024**

**Cyngor Cymuned y Waun – Ward De**

1. Mae etholiad am un Cynghorydd Cymuned i'w gynnal mewn perthynas â Ward Waun De

2. Rhaid cyflwyno Papurau Enwebu i'r Swyddog Canlyniadau erbyn **4yh dydd Iau 5 Gorffennaf 2024** fan bellaf**.**

3. Gellir mynd â phapurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau, Swyddfa Etholiadau, Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY rhwng 10yb a 4yh ar unrhyw ddiwrnod gwaith ar ôl dyddiad cyhoeddi'r rhybudd hwn (ac eithrio gwyliau banc), trwy apwyntiad, neu gellir eu cyflwyno yn electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad isod ynglŷn â chyflwyno'n electronig.

4. Gellir cael papurau enwebu gan y Swyddog Canlyniadau, naill ai yn y Swyddfa Etholiadau, Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY, ar-lein o wefan y Comisiwn Etholiadol

   Ymgeiswyr ac asiantau mewn etholiadau lleol yng Nghymru | Electoral Commission

   neu gellir gofyn amdanynt yn electronig drwy e-bost - gweler y datganiad cyflawni electronig isod.

5. Os caiff ei herio, cynhelir y bleidlais ar **ddydd Iau 1 Awst 2024.**

6. Rhaid i geisiadau i gofrestru i bleidleisio gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn 12 hanner nos, dydd Mawrth 16 Gorffennaf 2024. Gellir gwneud ceisiadau ar-lein ar www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

7. Rhaid i bob cais am bleidlais bost newydd, neu bob cais i ddiwygio neu ganslo pleidlais bost bresennol gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY erbyn 5yh dydd Mercher 17 Gorffennaf 2024.

8. Rhaid i bob cais am bleidlais drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY erbyn 5yh dydd Mercher 24 Gorffennaf 2024.

9. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy mewn argyfwng yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY erbyn 5yh dydd Iau 1 Awst 2024.

**Ian Bancroft**

**Swyddog Canlyniadau**

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau, Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY
Dyddiedig : Dydd Iau 27 Mehefin 2024

## Datganiad Darpariaeth Electronig

Mae'n rhaid i bapurau enwebu a gyflwynir yn electronig, drwy e-bost, gael eu cyflwyno yn unol â'r trefniadau fel y nodir yn y datganiad hwn.

Trwy e-bost i **CCnominations@wrexham.gov.uk**

**Gwiriadau anffurfiol** – teipiwch '**GWIRIAD ANFFURFIOL'** yn y blwch testun
**Cyflwyno enwebiadau** – teipiwch '**CYFLWYNIAD FFURFIOL'** yn y blwch testun

Gellir defnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod hefyd ar gyfer ymholiadau enwebu.

Lle y bo'n bosibl, rhowch eich rhif ffôn yn yr e-bost eglurhaol rhag ofn y bydd gennym ymholiadau.

Dylid atodi papurau enwebu at yr e-bost mewn dogfen Word neu PDF. Mae llofnod wedi'i deipio, llofnod electronig neu lofnod inc gwlyb (ar bapur enwebu wedi'i sganio) i gyd yn llofnodion dilys ar gyfer papurau enwebu a gyflwynir yn electronig.

Cyfrifoldeb yr ymgeiswyr yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau yn derbyn y ffurflenni enwebu yn y ffordd gywir cyn y dyddiad cau.

Nid yw derbyn derbynneb darllen electronig gan y Swyddog Canlyniadau yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad i hysbysu'r ymgeiswyr o'i benderfyniad o ran p'un a yw eu henwebiad yn ddilys neu beidio. Fodd bynnag, dylech dderbyn ymateb awtomatig o'r ddau gyfeiriad e-bost a ddangosir uchod, a fydd yn nodi bod e-bost wedi'i gyrraedd. Os na fyddwch yn derbyn ymateb awtomatig cysylltwch ag electoral@wrexham.gov.uk .